




Prifysgol Cymru  
Y Drindod Dewi Sant  
University of Wales  
Trinity Saint David



Canllaw i Fyfyrwyr  
ar Gwynion Myfyrwyr,  
Adolygu Canlyniadau  
ac Apeliadau Academaidd

## 1. Cyflwyniad

Nod y Brifysgol yw darparu amgylchedd dysgu cynhwysol, cefnogol a diogel lle gall yr holl staff a'r myfyrwyr ffynnu a chyflawni eu potensial personol a lle mae pawb yn cael eu trin gydag urddas a pharch.

Mae'r Brifysgol yn gwerthfawrogi adborth a defnyddia hyn i wella'i darpariaeth ymhellach. Mae'r Brifysgol yn monitro cwynion ac apeliadau academiaidd yn ofalus fel y gellir cymryd pob cam rhesymol i geisio atal materion rhag digwydd eto.

Nod y Canllaw hwn i Fyfrwyr yw rhoi gwybodaeth i chi am yr hyn i'w wneud os aiff pethau o chwith ac os hoffech wneud cwyn, cais i adolygu canlyniad, neu apêl academiaidd.

## 2. Diffiniadau

Mae '**cwyn**' yn cwmpasu ystod eang o faterion posibl. Er enghraifft, gallech wneud cwyn am wasanaeth (e.e. llety, TG, mynediad i Moodle, y llyfrgell, Cwnsela, Cyllid), ynglŷn â'r addysgu a'r dysgu rydych wedi'i dderbyn (e.e. fel y cynigir gan yr Ysgol neu ganolfan, Cyfadran, neu Wasanaethau Cymorth Dysgu), neu am aelod o staff neu fyfyrwr arall.

Mae cwyn yn codi dim ond os na fu'n bosibl datrys **problem** neu **fater** yn anffurfiol, neu os yw mater yn un mor ddifrifol fel nad yw'n briodol defnyddio llwybr anffurfiol yn y lle cyntaf.

Yn gyffredinol, rhennir cwynion yn **gwynion academiaidd** (cwynion sy'n ymwneud â'ch profiad dysgu ac addysgu) a **chwynion anacademaidd** (cwynion sy'n ymwneud â'ch profiad fel myfyrwr yn fwy cyffredinol).

Ymhellach, gall cwynion fod ynglŷn â **gwasanaeth** neu **berson** (e.e. myfyrwr arall neu aelod o'r staff).

Yn olaf, gall cwynion fod yn **anffurfiol** neu'n **ffurfiol** gan ddibynnu ar y broses a ddefnyddir i'w datrys. Gweler hefyd adran 3 yn y canllaw hwn.

Mae mater yn **gymhleth** os yw'n gŵyn ac yn apêl academiaidd (e.e. os hoffech apelio yn erbyn penderfyniad Bwrdd Arholi a chwyno am eich addysgu neu'ch goruchwyliaeth) NEU os hoffech godi nifer o gwynion llai o fewn yr un gŵyn gyffredinol.

'**Adolygu canlyniad**' yw'r term a ddefnyddir pan nad ydych yn hapus â chanlyniad cwyn neu apêl academiaidd, neu broses arall, a hoffech i ganlyniad y broses ffurfiol gael ei adolygu.

Ar y llaw arall mae '**apêl academiaidd**' yn derm llawer mwy penodol ac fe'i defnyddir pan fo myfyrwyr yn dymuno apelio yn erbyn canlyniad academiaidd arbennig (e.e. canlyniad Bwrdd Arholi). Mae apeliadau academiaidd bob amser yn ffurfiol. Hefyd mae'r amgylchiadau lle gallwch wneud apêl yn gliriach ac yn fwy cyfyng o lawer. Cyn gwneud apêl academiaidd felly mae'n bwysig eich bod yn gwirio a ydych yn bodloni'r meini prawf ar gyfer gwneud apêl.

Mae amryw brosesau a chanlyniadau'n gysylltiedig â'r mathau gwahanol o gwynion ac apeliadau academiaidd, ac mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn y Canllaw hwn i Fyfrwyr. Mae'n bwysig eich bod yn dewis y broses gywir ar gyfer y math o gŵyn neu apêl sydd gennych.

**Canlyniad** yw'r term a ddefnyddir ar gyfer canlyniad proses gwneud cwyn, apêl academiaidd, neu adolygu canlyniad. Mae pob polisi a gweithdrefn yn rhoi manylion yr amrywiaeth o ganlyniadau posibl sy'n gysylltiedig â phob proses. Mae'n bwysig gwirio'r amrywiaeth o ganlyniadau fel na fyddwch yn disgwyl canlyniad na all gweithdrefn arbennig ei ddarparu.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yn amlwg os yw mater yn gŵyn neu'n apêl neu'n gais i adolygu canlyniad. Fodd bynnag, os nad ydych yn siŵr mae'n bwysig eich bod yn gofyn am gyngor gan fod dewis y broses gywir

yn bwysig. Gallwch ofyn am gyngor gan aelod o'r staff yn eich Cyfadrn (e.e. eich tiwtor personol), staff o fewn yr Adran Gwasanaethau Myfyrwyr, neu o Undeb y Myfyrwyr. Yn yr un modd, mewn achos o gwynion cymhleth neu os yw'n ymddangos y gallai mater fod yn gŵyn ac yn apêl, mae'n bwysig iawn eich bod yn gofyn am gyngor oherwydd byddai dewis y broses anghywir yn achosi oedi cyn cael canlyniad. Gallai dewis y broses anghywir olygu hefyd y bydd eich cais yn cael ei wrthod, er enghraifft os nad yw'n bodloni'r meini prawf.

### 3. Siarter Myfyrwyr a Chod Ymddygiad Myfyrwyr

Mae'r Siarter Myfyrwyr yn amlinellu'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gan y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr a'r hyn y gall y Brifysgol ei ddisgwyl gennych chi. Mae copi o'r Siarter Myfyrwyr ar gael **yma**.

Mae'r Cod Ymddygiad Myfyrwyr yn amlinellu pa ymddygiad y mae'r Brifysgol yn ei ddisgwyl gan ei myfyrwyr ac yn crynhoi pa gamau mae'r Brifysgol yn eu cymryd mewn achosion o gamymddwyn. Mae copi o'r Cod Ymddygiad Myfyrwyr ar gael **yma**.

Mae datganiad y Brifysgol ynghylch Urddas yn y Gweithle yn crynhoi'r hyn y gall pawb sy'n gweithio yn y Brifysgol ei ddisgwyl o ran ymddygiad gan bawb o fewn cymuned y Brifysgol. Mae copi o ddatganiad y Brifysgol ynghylch Urddas yn y Gweithle ar gael **yma**.

### 4. Datrysiaid anffurfiol

Yn aml gellir datrys materion yn anffurfiol, heb ddefnyddio unrhyw weithdrefnau ffurfiol. Os oes unrhyw fodd o gwbl i ddatrys problem yn anffurfiol, yna dyna fyddai'r opsiwn gorau. Yn rhan o broses ffurfiol, gofynnir i chi a geisiwyd cael datrysiaid anffurfiol. Fodd bynnag, os ydych o'r farn nad yw dull anffurfiol wedi datrys y mater, neu pan fo'n amlwg nad yw dull anffurfiol yn briodol, mae gan y Brifysgol amrywiaeth o bolisiau ar gael i sicrhau eich bod yn gallu dod â chwyn i sylw'r Brifysgol yn ffurfiol.

Sylwer, yn achos apeliadau academiaidd, yr unig ddewis yw dilyn proses ffurfiol. Ni ellir herio penderfyniad Bwrdd Arholi, Panel Arfer Annheg neu Banel Amgylchiadau Esgusodol yn anffurfiol.

## 5. Â phwy ddylwn i gysylltu i ddatrys problem neu fater am wasanaeth yn anffurfiol?

<b>Mater</b>	<b>Cysylltwch â - Manylion cysylltu generig ar gyfer pob campws</b>
Cyllid - ffioedd	<a href="mailto:fee@uwtsd.ac.uk">fee@uwtsd.ac.uk</a>
TaSG	Desg Wasanaeth TG ar Myday; 0300 500 5055; <a href="mailto:ITServiceDesk@uwtsd.ac.uk">ITServiceDesk@uwtsd.ac.uk</a>
Moodle	<a href="mailto:moodle@uwtsd.ac.uk">moodle@uwtsd.ac.uk</a>
Gweithrediadau: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Llety</li> <li>• Arlwyo</li> <li>• Y Feithrinfa</li> <li>• Ystadau</li> <li>• Y Ganolfan Chwaraeon</li> </ul>	<a href="mailto:operations@uwtsd.ac.uk">operations@uwtsd.ac.uk</a>
Gwasanaethau Myfyrwyr: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gyrfaoedd</li> <li>• Cwnsela</li> <li>• Cymorth Dysgu</li> <li>• Cymorth ariannol (y gronfa galedi, ysgoloriaethau a bwrsariau)</li> </ul>	<a href="mailto:studentservices@uwtsd.ac.uk">studentservices@uwtsd.ac.uk</a>
Addysgu a Dysgu	eich Cyfadran, Ysgol neu ganolfan
Y Gofrestrfa	<a href="mailto:registry@uwtsd.ac.uk">registry@uwtsd.ac.uk</a>

Os nad ydych yn siŵr â phwy i gysylltu neu os yw'r materion yn fwy cymhleth ac yn cynnwys mwy nag un uned, cysylltwch â'ch Cyfadran, yr Adran Gwasanaethau Myfyrwyr neu'ch Undeb Myfyrwyr ([union@tsd.ac.uk](mailto:union@tsd.ac.uk)). Mae'n bwysig ein bod yn gwybod am eich mater fel y gallwn geisio eich helpu a'ch cefnogi.

Os byddwch yn cysylltu â gwasanaeth ynglŷn â mater, dyma beth allwch chi ei ddisgwyl:

- Llinell amser** ar gyfer rhoi sylw i'r mater a diweddariad pan nad yw'n bosibl cwblhau erbyn y dyddiad terfyn;
- Manylion cyswllt** ar gyfer yr uned academiaidd neu broffesiynol, fel y gwyddoch sut i gysylltu mewn perthynas â'ch materion. Yn aml fe gewch hefyd enw cyswllt y person sy'n delio â'r mater ar eich rhan;
- Gwybodaeth** ynghylch beth i'w wneud os nad ydych yn fodlon â'r sylw a roddir i'r materion.

## 6. Ble i fynd am gymorth a chyngor os aiff pethau o chwith?

Mae staff yn y Brifysgol yn hapus i geisio'ch helpu i ddatrys unrhyw fater yn anffurfiol os yw dull o'r fath yn briodol. Maent hefyd ar gael i'ch cynorthwyo trwy brosesau ffurfiol. Ceisiwch osgoi troi at amryw aelodau gwahanol o'r staff ar yr un pryd i geisio datrys problem oherwydd gall hyn arwain at ddryswch ac yn wir achosi oedi cyn datrys eich mater. Ar ôl i chi gael enw cyswllt, cysylltwch â'r person hwn yn unig.

Er ei bod yn well yn gyffredinol ceisio datrys mater gyda'r uned a / neu'r person dan sylw, gallwch bob amser gysylltu â'ch Cyfadran neu'r Adran Gwasanaethau Myfyrwyr neu droi at eich Undeb Myfyrwyr am gyngor ynglŷn â'r hyn i'w wneud, ac am gefnogaeth ynglŷn â chodi mater a / neu ddod o hyd i ddatrysiad. Gallant hefyd eich helpu i drafod prosesau ffurfiol a sicrhau eich bod yn dewis y broses gywir. Bydd dewis y broses anghywir a / neu beidio â llenwi'r ffurflen briodol yn arwain at oedi a gallai olygu y bydd eich cais yn cael ei wrthod.

## 7. Ble gallaf ddod o hyd i wybodaeth a pha bolisiâu, gweithdrefnau a ffurflenni sydd ar gael?

Gellir dod o hyd i wybodaeth am yr holl brosesau ffurfiol ar gyfer cwynion ac apeliadau academiaidd ar **Myday**. Yn ogystal fe gewch yr holl bolisiâu, gweithdrefnau a ffurflenni perthnasol yno.

Os oes gennych gwestiynau am gwynion, adolygu canlyniadau, apeliadau, polisiâu a gweithdrefnau academiaidd ewch i: [aocases@uwtsd.ac.uk](mailto:aocases@uwtsd.ac.uk)

Os oes gennych gwestiynau am gwynion, adolygu canlyniadau, polisiâu neu weithdrefnau anacademaidd ewch i: [secases@uwtsd.ac.uk](mailto:secases@uwtsd.ac.uk)

### Rhestr o bolisiâu a gweithdrefnau:

#### *Cwynion:*

- Polisi aflonyddu a bwlio myfyrwyr
- Gweithdrefn Cwynion Myfyrwyr

#### *Adolygu canlyniad:*

- Adolygu penderfyniad yn ymwneud â thoriad i astudiaethau neu ohirio astudiaethau
- Adolygu penderfyniad i beidio â chymeradwyo ceisiadau am addasiad
- Adolygu penderfyniadau'r Pwyllgor Achosion Arbennig
- Adolygu canlyniad cwyn
- Adolygu canlyniad Panel Disgyblu neu fesur rhagofalus
- Adolygu canlyniad Panel Addaswydd i Astudio neu fesur rhagofalus
- Adolygu canlyniad Addaswydd i Ymarfer neu fesur rhagofalus
- Adolygu canlyniad Apêl Academiaidd mewn perthynas â phenderfyniad Bwrdd Arholi

#### *Apeliadau academiaidd:*

- Apeliadau yn erbyn penderfyniadau ynghylch amgylchiadau esgusodol
- Apeliadau yn erbyn penderfyniadau ynghylch arfer annheg
- Y weithdrefn Apeliadau Academiaidd mewn perthynas â phenderfyniadau Byrddau Arholi

#### *Apeliadau gweinyddol:*

- *Apeliadau yn erbyn penderfyniadau monitro presenoldeb (i Fryfrywr Haen Pedwar)*

#### *Cwynion yn erbyn eich ymddygiad:*

- Polisi Disgyblu Myfyrwyr (camymddwyn anacademaidd)
- Polisi Addaswydd Myfyrwyr i Astudio
- Polisi Addaswydd Myfyrwyr i Ymarfer
- Gweithdrefn arfer annheg

- Polisi aflonyddu a bwlio myfyrwyr

Gweler Myday i weld pa **ffurflenni** a ddefnyddir ar gyfer pob polisi a gweithdrefn.

## 8. Beth ddylech chi ei ystyried cyn gwneud cwyn, cais i adolygu canlyniad neu apêl?

Mae'n bwysig meddwl am nifer o bethau cyn i chi gyflwyno cwyn, gwneud apêl neu wneud cais i adolygu canlyniad.

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn dewis y broses gywir ac yn defnyddio'r ffurflen gywir;
- Darllenwch y polisi a'r gweithdrefnau perthnasol a sicrhau eich bod yn bodloni unrhyw feini prawf fel nad yw'ch apêl neu'ch cais i adolygu canlyniad yn cael ei wrthod ar unwaith;
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn hollol ymwybodol o'r hyn y gall y polisi ei wneud a'r hyn na all ei wneud. Mae hyn yn arbennig o bwysig os yw eich mater hefyd o bosibl yn drosedd;
- Yn achos materion cymhleth, gwnewch yn siŵr eich bod yn meddwl yn ofalus am eich prif gŵyn a pha brosesau mae angen i chi eu defnyddio;
- Cofiwch geisio cyngor naill ai trwy eich Cyfadrn, yr Adran Astudiaethau Myfyrwyr, neu Undeb y Myfyrwyr;
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn amgáu'r holl dystiolaeth berthnasol a gofynnol i gefnogi'ch achos;
- Os ydych wedi ceisio defnyddio dull anffurfiol, gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi'n fanwl ar y ffurflen beth rydych wedi rhoi cynnig arno a pham na ddatryswyd y mater yn foddhaol;
- Nodwch yn fanwl beth fyddai'r canlyniad a ddymunir;
- Nodwch os oes gennych anabledd y mae angen ei ystyried yn ystod y weithdrefn ffurfiol;
- Gwnewch yn siŵr bod eich manylion cyswllt yn gywir;
- Gwnewch yn siŵr eich bod o fewn y llinellau amser a nodir. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth adolygu penderfyniadau ac apeliadau academaidd. Gweler hefyd adran 12.

**Peidiwch** ag anfon llythyr yn unig, a chopi at gynifer o staff â phosibl. Rhaid derbyn cwynion ffurfiol, ceisiadau i adolygu canlyniad ac apeliadau ar y ffurflen briodol a'i hanfon i'r uned briodol fel y nodir ar y ffurflen.

## 9. Trydydd partïon, grwpiau a chynrychiolaeth gyfreithiol

Nid yw'n bosibl i drydydd parti (e.e. rhiant, partner, ffrind) wneud cwyn neu apêl academaidd, neu gais i adolygu canlyniad, ar eich rhan. Yr unig eithriad yw cwynion myfyrwyr y gellir eu sianelu trwy Undeb y Myfyrwyr.

Wrth reswm, caniateir cefnogaeth yn ystod proses ffurfiol fel y manylir yn y polisiau a'r gweithdrefnau.

Gall grŵp o fyfyrwyr wneud cwynion ond sylwer pan gyflwynir ffurflen ar ran grŵp, mae'n rhaid i bob myfyriwr nodi (e.e. trwy ychwanegu eu llofnod electronig neu e-bost a anfonir mewn cefnogaeth gyda'r gwaith papur) eu bod yn rhan o'r grŵp ac yn cytuno'n llwyr â'r hyn sydd wedi'i gyflwyno.

Mae rheoliadau ynglŷn â chynrychiolaeth gyfreithiol wedi'u nodi'n fanwl ym mhob un o'r polisiau a'r gweithdrefnau.

## 10. Sut mae'r brifysgol yn delio â chwynion, ceisiadau i adolygu canlyniadau, ac apeliadau?

Mewn perthynas â'i gweithdrefnau cwynion, adolygu canlyniadau ac apeliadau, mae'r Brifysgol yn dilyn egwyddorion cyfiawnder naturiol ac yn cymryd i ystyriaeth yr arweiniad a'r arfer gorau diweddaraf yn ogystal â'r holl deddfwriaeth berthnasol (e.e. deddfwriaeth hawliau cyfartal a hawliau dynol yn ogystal â deddfwriaeth diogelu data). Mae'n monitro'r holl gwynion, apeliadau a cheisiadau i adolygu eu canlyniadau er mwyn sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu, fel y bo'n briodol, a bod y Brifysgol yn parhau i wella'i darpariaeth i'w holl fyfyrwyr.

Yn ystod prosesau ffurfiol mae'r Brifysgol yn pwysu a mesur yn ofalus ei dyletswydd gofal i'r holl bartion dan sylw a chynigir cefnogaeth i'r holl bartion yn ystod gweithdrefnau ffurfiol.

Os ydych wedi cyflwyno cwyn ffurfiol, cais i adolygu canlyniad neu apêl academiaidd, gallwch ddisgwyl y canlynol:

- a. **Tryloywder** o ran yr hyn sy'n digwydd a pham bod hyn yn digwydd;
- b. Copi o'r **polisi neu'r weithdrefn** a ddefnyddir gan y Brifysgol yn eich achos chi neu ddolen iddynt;
- c. **Llinell amser** yn nodi pryd y gallwch ddisgwyl clywed am y cam nesaf a / neu'r canlyniad;
- d. Prif **enw cyswllt** er mwyn cysylltu os nad yw rhywbeth yn glir;
- e. **Gwybodaeth glir** mewn perthynas ag unrhyw gyfarfod;
- f. **Eglurhad** os oes unrhyw oedi;
- g. **Canlyniad** yn ysgrifenedig o fewn llinell amser penodol.

Amlinellir llinellau amser ar gyfer holl amrywiol gamau'r prosesau ffurfiol yn y polisïau.

Gellir trefnu cyfarfod i egluro canlyniad a gallwch chi hefyd ofyn am gyfarfod os nad yw'r canlyniad yn glir i chi ac mae gennych gwestiynau.

## 11. Beth os nad wyf yn hapus â'r canlyniad?

Os nad ydych yn fodlon ar y canlyniad, cewch ofyn am adolygiad o'r canlyniad fel y nodir yn adran 7 y Canllaw hwn i Fyfyrwyr. **Ni** cheir gofyn am adolygiad o ganlyniadau apeliadau yn erbyn amgylchiadau esgusodol, apeliadau yn erbyn penderfyniadau arfer annheg ac apeliadau yn erbyn penderfyniadau monitro presenoldeb.

Mae angen i chi wneud yn siŵr eich bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer gwneud cais i adolygu canlyniad. Mae angen i chi fod yn ymwybodol hefyd fod cyfnod amser penodol yn aml pryd y gallwch wneud cais i adolygu canlyniad. Nodir y dyddiad terfyn hwn yn y llythyr canlyniad.

Wedi i'r holl weithdrefnau mewnol gael eu cwblhau (h.y. mae'r holl bosibiliadau o ran apêl a/neu adolygu canlyniad yn fewnol wedi'u dihybyddu, rhoddir llythyr cwblhau gweithdrefnau. Os nad ydych yn hapus o hyd â chanlyniad eich achos, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Fe gewch fanylion ynglŷn â'r cam hwn yn y llythyr cwblhau gweithdrefnau. Ni allwch gysylltu â'r corff allanol hwn tan i holl brosesau mewnol y Brifysgol gael eu cwblhau.

## 12. Beth os gwneir cwyn yn f'erbyn i?

Gellir gwneud cwyn a / neu honiad am eich ymddygiad, er enghraifft pan wneir honiad o gamymddwyn academiaidd neu anacademaidd yn eich erbyn. Os felly, bydd y Brifysgol yn cysylltu â chi i roi gwybod bod honiad wedi'i wneud a pha brosesau a gweithdrefnau anffurfiol neu ffurfiol a ddilyniir.

Yn rhan o'r gweithdrefnau a chan ddibynnu ar ddifrifoldeb y drosedd honedig, gall y Brifysgol, fel mesur rhagofalus ac oherwydd ei dyletswydd gofal i bawb o fewn cymuned y Brifysgol, benderfynu bod angen

gohirio astudiaethau dros dro neu gyfres o fesurau eraill. Os felly, bydd y Brifysgol yn egluro hyn yn llawn i chi yn unol â'i rheoliadau.

Yr holl bethau gall myfyrwyr eu disgwyl gan y Brifysgol pan fyddant yn gwneud cwyn, cais i adolygu canlyniad neu apêl, (fel y nodir yn adran 10), gallwch chi hefyd eu disgwyl os gwneir cwyn a / neu honiad yn eich erbyn chi.

### **13. Cymorth a chyngor yn ystod prosesau ffurfiol**

Mae gan bob myfyriwr hawl i dderbyn cymorth a chyngor yn ystod prosesau ffurfiol. Gall myfyrwyr gysylltu â'r Adran Gwasanaethau Myfyrwyr a / neu Undeb y Myfyrwyr am gymorth a chyngor. Bydd yr Adran Gwasanaethau Myfyrwyr yn darparu cyngor ac arweiniad ac yn trefnu cymorth ychwanegol os oes angen. Bydd Undeb y Myfyrwyr yn darparu cynrychiolaeth ac arweiniad ac yn darparu cefnogaeth annibynnol trwy gydol y broses.